



**CYNLLUN IAITH GYMRAEG
AWDURDOD
TÂN AC ACHUB
GOGLEDD CYMRU**

2005-2010

Iluniwyd yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

CYNNWYS

DATGANIAD	2
NODYN CYFFREDINOL A RHAGAIR	3
Y STRATEGAETH GENEDLAETHOL AR GYFER CYMRU DDWYIEITHOG	4
Y CYNLLUN DIWYGIEDIG YN EI GYD-DESTUN	5
AGWEDD YR AWDURDOD AT DDWYIEITHRWYDD	7
GWEITHREDU'R CYNLLUN	7
Y DYLETSWYDDAU A'R NODAU CORFFORAETHOL	8
ESBONIO'R DIWYG	9
POLISIÄU	10
CYFLWYNO GWASANAETHAU	12
Y DDELWEDD GYHOEDDUS	18
Y GWEITHLU	21
PARTÏON ERAILL	24
GWELLA'N BARHAUS TRWY'R CYNLLUN	25
CRYNODEB O FATERION CYDYMFFURFIO	26
CYFRIFOLDEB A MANYLION CYSYLLTU	28
CRYNODEB O GYNLLUNIAU GWELLA	29
DANGOSYDDION PERFFORMIAD	31

DATGANIAD

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.

Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut y bydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

NODYN CYFFREDINOL

Mae unrhyw gyfeiriad at 'Awdurdod Tân ac Achub' a'r 'Gwasanaeth Tân ac Achub' yn y Cynllun hwn yn cyfeirio'n arbennig at 'Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru' a 'Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru', sydd â chyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau tân ac achub yn ardaloedd y chwe sir yng Ngogledd Cymru.

Mae unrhyw gyfeiriad at 'ddwyieithrwydd' yn y Cynllun hwn yn cyfeirio'n benodol at yr ieithoedd Cymraeg a Saesneg.

Derbyniodd y Cynllun Diwygiedig hwn gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg dan Adran 16 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ar [DYDDIAD].

RHAGAIR I'R CYNLLUN DIWYGIEDIG

Dyma gynllun iaith diwygiedig Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, ac mae'n adeiladu ar ein cynllun cyntaf a gyhoeddwyd yn 1999.


Dogfen bolisi yn bennaf oedd y cynllun cyntaf, ac er ei fod wedi ateb y diben yn iawn, rydym wedi dod yn fwyfwy ymwybodol fod yr arddull sy'n eithaf ffurfiol wedi tueddu i wanhau ei effeithiolrwydd fel ffordd i wella'r gwasanaethau rydym yn eu cyflwyno.

Felly, fel rhan o'r gwaith o adolygu'r cynllun, rydym wedi ceisio llunio dogfen sydd ar un llaw yn ddatganiad cyhoeddus o bolisi a bwriad, a hefyd yn llawlyfr ymarferol i droi ato i'r staff a'r Aelodau. Er mai atom ni fel Gwasanaeth y mae'r cynllun wedi ei anelu yn bennaf, rydym yn awyddus iawn bod y cyhoedd hefyd yn cael gwybodaeth plaen a syml am yr hyn y gallent ddisgwyl oddi wrthym.

Mae cryn dipyn wedi cael ei gyflawni eisoes o ran ymgorffori dwyieithrwydd yng ngwaith yr Awdurdod. Mae adroddiadau i Fwrdd yr Iaith yn rhoi tystiolaeth o'n llwyddiant parhaus. Ni ddylid edrych felly ar ein cynlluniau gwella fel arwydd o ddiffyg yn ein gweithgarwch blaenorol.

Tra'n cyfeirio rywfaint at ein cyraeddiadau blaenorol, un o brif amcanion llunio'r Cynllun diwygiedig hwn ydi rhoi bywyd ac egni newydd yn ein gweithgarwch gwella. Yn fwy na dim, rydym wedi ceisio rhoi disgrifiad gonest a realistig o'r ffordd rydym yn bwriadu gwireddu ein gweledigaeth i gyflwyno gwasanaethau yn y ddwy iaith rhwng nawr a 2010.

Y STRATEGAETH GENEDLAETHOL AR GYFER CYMRU DDWYIEITHOG



Iaith Pawb, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad yn 2003

Yn Chwefror 2003 cyhoeddwyd 'Iaith Pawb' gan Lywodraeth y Cynulliad, sef dogfen bolisi strategol a 'chynllun gweithredu ar gyfer Cymru ddwyieithog'. Hwn oedd y fframwaith gweithredu cenedlaethol cyntaf erioed i gynllunio ar lefel lywodraethol ar gyfer gwarchod, cynnal a hybu'r iaith Gymraeg.

Rydym ni, yr Awdurdod Tân ac Achub yn cefnogi nodau'r fframwaith gweithredu hwnnw ac yn ystyried bod ein Cynllun Iaith Gymraeg yn gyfraniad lleol pwysig tuag at wireddu'r strategaeth genedlaethol ehangach honno.

Yn Nhachwedd 2004, fel rhan o'r cam i "leihau a diwygio'r wladwriaeth gwango yng Nghymru", cyhoeddodd Rhodri Morgan AS, Prif Weinidog y Cynulliad, newidiadau i Fwrdd yr Iaith a oedd wedi eu bwriadu i gryfhau atebolrwydd democrataidd.

"Mae swyddogaethau Bwrdd yr Iaith yn llywodraethol eu natur gan fwyaf, yn ymwneud yn bennaf â llunio polisi a dosbarthu grantiau. Mae gan Lywodraeth y Cynulliad ei pholisi iaith ei hun bellach erbyn hyn, a staff yn gweithio arno. Penderfynais y dylai swyddogaethau'r Bwrdd gael eu cyfuno â Llywodraeth y Cynulliad cyn Ebrill 2007.

Bydd swyddfa Dyfarnydd yn cael ei sefydlu i ymgymryd â swyddogaethau rheoleiddio'r bwrdd. Bydd y swyddfa yn goruchwyllo cynlluniau iaith cyrff sector cyhoeddus, gan gynnwys cynllun iaith y Cynulliad. Bydd y swyddfa yn cael ei sefydlu fel un ymgynghorol i ddechrau, ac yn cael ei rhoi ar sail statudol pan ddaw'r cyfle i ddeddfu."

Ar adeg ysgrifennu hyn, nid yw effaith y newid hwn yn wybyddus.

GOSOD Y CYNLLUN DIWYGIEDIG HWN YN EI GYD-DESTUN

Mae Awdurdod Tân ac Achub gogledd Cymru yn gwasanaethu amrywiaeth gyfoethog o gymunedau, a threftadaeth naturiol a diwylliannol yn gefn iddynt.

Mae ardaloedd y chwe awdurdod unedol sef Conwy, Gwynedd, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam ac Ynys Môn yn rhannu nifer o nodweddion tebyg, ond mae gan bob un eu proffiliau eu hunain mewn rhanbarth sy'n gyfuniad o ardaloedd poblog a diwydiannol a Seisnigedig, a chadarnleoedd gwledig a lled-wledig i'r Gymraeg.



Y DEFNYDD O'R GYMRAEG

Yn ôl cyfrifiad 2001¹, o blith y 641,286 o bobl tair oed a throsodd yng Ngogledd Cymru, roedd 225,213 (35%) ohonynt yn gallu naill ai siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg. Roedd nifer uwch hyd yn oed – o leiaf 232,125 (36%) – yn dweud eu bod yn gallu deall Cymraeg llafar.

POBL GYDAG O LEIAF UN SGIL YN GYMRAEG


	Pawb 3 Oed a throsodd	Yn deall Cymraeg llafar	Yn siarad Cymraeg	Yn darllen Cymraeg	Yn ysgrifennu Cymraeg	Sydd naill ai'n siarad, yn darllen neu'n ysgrifennu Cymraeg
Gwynedd	112,800	77,966	77,846	72,276	69,264	79,184
Ynys Môn	64,679	41,220	38,893	35,510	33,246	39,885
Conwy	106,316	37,112	31,298	29,085	26,077	33,839
Sir Ddinbych	90,085	28,146	23,760	22,431	19,858	26,119
Sir y Fflint	143,382	24,630	20,599	20,611	17,687	24,364
Wrecsam	124,024	23,051	18,105	18,386	15,280	21,822
Cyfansymiau	641,286	232,125	210,501	198,299	181,412	225,213

¹ Cyfrifiad 2001: Adroddiad ar yr Iaith Gymraeg, Tabl Atodol ar Sgilliau iaith Gymraeg.

Y CYNNYDD A RAGWELIR YN Y DEFNYDD O'R GYMRAEG

Mae nifer y bobl sydd â sgiliau Cymraeg yn debygol o gynyddu. Yn ôl Cyfrifiad 2001², nid ymhlith y genhedlaeth hŷn y mae'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg, ond ymhlith y rhai iau. Mae hyn yn wir am y chwe sir. Fe gwasanaeth, mae angen inni gofio y bydd y cyhoedd yn galw am fwy a mwy o wasanaethau dwyieithog.

CANRAN Y BOBL 3 OED A THROSODD SY'N SIARAD CYMRAEG



Hyd yn oed yn yr ardaloedd sydd ar y ffin â Lloegr sydd â'r ganran isaf o bobl 3 - 15 oed sy'n siarad Cymraeg, mae'r canrannau o fewn cymunedau unigol yn gymharol uchel. Yn Sir y Fflint, mae'r ganran yn amrywio rhwng 29% a 46%. Yn Wrecsam, mae'n amrywio rhwng 17% a 59%.

At hynny, drwy Gymru gyfan, roedd 60% o bobl yng Nghymru, pan holwyd nhw gan yr Arolwg o'r Llafurlu yn 2001, am eu hunaniaeth genedlaethol yn ystyried mai Cymreig oedd hwnnw, ac roedd 7% arall yn ystyried mai Cymreig a hunaniaeth genedlaethol arall (Prydeinig yn fwyaf cyffredin) oeddent.

² Cyfrifiad 2001: Adroddiad ar yr Iaith Gymraeg, Tabl WLP01

AGWEDD YR AWDURDOD AT DDWYIEITHRWYDD

Rydym ni, yn Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, yn ymfalchïo ein bod wedi cymryd yr iaith o ddifri ers blynyddoedd.

Trwy gydnabod ein dyletswyddau moesol a chyfreithiol i ateb disgwyliadau'r cyhoedd ac i amddiffyn treftadaeth ddiwylliannol yr ardal, rydym hefyd yn cydnabod bod manteision cadarnhaol i'w cael i'r gwasanaeth trwy gynnal ein busnes cyhoeddus yn y ddwy iaith.

Mae arbed bywydau a lleihau risg wrth galon cenhadaeth yr Awdurdod – mae'r iaith yn hanfodol i'w lwyddiant.

Rydym yn ceisio darparu gwasanaethau yn deg i bob ardal yng Ngogledd Cymru, gan gymryd ystyriaeth o'r gwahaniaethau sydd rhyngddynt.

Rydym yn cydnabod ein dyletswydd at ein staff hefyd, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn byw yng Ngogledd Cymru eu hunain ac yn adlewyrchu cyfansoddiad ieithyddol a diwylliannol eu cymunedau eu hunain.

GWEITHREDU'R CYNLLUN

Mae'r cyfrifoldeb am weithredu a chynnal y cynllun yn syrthio i ran y Prif Swyddog Tân, ac mae yntau yn dirprwyo'r rheolaeth o ddydd i ddydd i'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol sydd â chyfrifoldeb am Gynnal y Gwasanaethau.

Mae gweithgor iaith mewnol wedi ei sefydlu i gynorthwyo gyda'r gwaith o ddatblygu polisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â'r Cynllun. Nid oherwydd eu rôl neu eu swydd o anghenraid y dewiswyd aelodau'r gweithgor hwn, ond yn bwysicach oherwydd eu diddordeb a'u hawydd i brif-ffrydio materion iaith.

DYLETSWYDDAU'R AWDURDOD TÂN AC ACHUB

Mae prif ddyletswyddau'r Awdurdod wedi eu hymgorffori yng Neddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, sef:

- Hybu diogelwch tân trwy ddarparu gwybodaeth, cyhoeddusrwydd ac anogaeth i atal tanau a marwolaethau ac anafiadau oherwydd tân;
- Rhoi cyngor, ar gais, ynghylch sut i atal tanau a rhwystro eu lledaeniad mewn adeiladau ac eiddo eraill, ac ynghylch y ffyrdd i ddianc mewn achos o dân;
- Gwneud darpariaeth i achub ac amddiffyn pobl rhag niwed difrifol mewn achos o ddamweiniau ar y ffyrdd;
- Ymateb i argyfyngau neu ddigwyddiadau eraill yn ôl yr angen er mwyn amddiffyn pobl, eiddo, neu'r amgylchedd.



Y NODAU CORFFORAETHOL

Mae'r Awdurdod wedi datblygu cyfres o bum nod corfforaethol sy'n crynhoi'r pethau hynny rydym yn eu hystyried yn ganolog i'w waith:

1. Atal tanau damweiniol a maleisus.
2. Gwarchod pobl rhag cael eu lladd neu eu hanafu oherwydd tân neu berygl arall.
3. Gwarchod y gymuned, busnesau a'r amgylchedd rhag cael niwed gan dân neu berygl arall.
4. Dod o hyd i ffyrdd i wella er mwyn ateb disgwyliadau'r Gymuned.
5. Gweithredu mor effeithiol ac effeithlon ag y gallwn, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael inni.

GAIR AM Y DIWYG

Rydym wedi cadw at batrwm arbennig wrth osod allan yr adran nesaf, yn bennaf er mwyn hwyluso darllen a chyfeirio at yr wybodaeth.

Ein Hegwyddorion

Dyma lle rydym yn gosod allan yr hyn yr ydym yn credu yn sylfaenol, yr egwyddorion sy'n ein harwain, a'n nodau i'r gwasanaeth o ran yr hyn ddylai ddigwydd yn y pen draw.

Bydd yr egwyddorion sy'n ein harwain wrth gwrs yn effeithio ar wahanol agweddau ar y Gwasanaeth. Gellir dosbarthu'r agweddau yma dan y penawdau canlynol:

- i) **POLISIĀU**
- ii) **CYFLWYNO'R GWASANAETHAU**
- iii) **EIN DELWEDD GYHOEDDUS**
- iv) **Y GWEITHLU**
- v) **PARTIÖN ERAILL**

O ran y pum elfen uchod, rydym yn edrych ar:

A. Sut rydym yn dangos ein bod eisoes yn dilyn ein hegwyddorion?

I ba raddau rydym yn llwyddo? Sut rydym eisoes yn cyfrannu at wireddu ein gweledigaeth? Pa gyfraniad rydym yn ei wneud i'r strategaeth gyffredinol ar gyfer Cymru?

B. Pa gynlluniau sydd gennym ar gyfer gwella?

I ba raddau rydym yn dal i weithio tuag at lwyddiant? Pa dasgau sy'n dal wrthi'n cael eu cyflawni, a pha rai rydym eto i gychwyn arnynt?

POLISIĀU

Ein Hegwyddorion

Rydym yn llunio polisïau, ac yn cymryd rhan mewn rhaglenni gwaith, cynlluniau a mentrau er mwyn gwella ac estyn y gwasanaethau hynny. O dro i dro, rydym yn newid ac yn diweddarau ein polisïau i gymryd ystyriaeth o amgylchiadau pan fyddant yn newid.

Credwn y dylai cynnwys ein holl bolisïau fod yn gyson â'r Cynllun Iaith, ac nid yn ei danseilio mewn unrhyw ffordd.

Yn ogystal â sicrhau bod ein polisïau yn unol â'n hegwyddor o drin y ddwy iaith yn gyfartal, cred yr Awdurdod y dylai ein polisïau hyrwyddo a hwyluso'r defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg.

Yn unol ag Adran 16 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, ni fydd unrhyw ran o'r Cynllun Iaith yn cael ei newid o ganlyniad i sefydlu polisi newydd, heb ymgynghori'n gyntaf â Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

1. Creu Polisïau Newydd

Mae trefniadau eisoes yn bodoli i drosglwyddo gwybodaeth ynglŷn â'n polisïau i holl staff Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru drwy system fewnol, sef SAPPOs¹.

Mae cyfarwyddiadau yn y SAPPO cyntaf un – sef Adran 1, Rhif 1 ar y ffordd gywir i greu SAPPO newydd. Mae hyn yn cynnwys gofyniad i ystyried unrhyw oblygiadau ar y Gymraeg.

Nid yn unig er mwyn creu polisïau y mae'r gofyniad hwn yn berthnasol. Wrth ystyried mentrau eraill, mae'r goblygiadau ar y Gymraeg i'w hystyried gan yr unigolion neu'r grŵp sydd â'r gwaith o gynllunio neu gymryd rhan yn y mentrau hynny. Mae hyn, felly, yn prif-frydio'r elfen ieithyddol i bob menter a pholisi newydd.

Cynlluniau ar gyfer gwella

Er ein bod yn codi ymwybyddiaeth eisoes, rydym yn credu bod gwaith ychwanegol i'w wneud i sicrhau bod yr holl staff yn ddigon cyfarwydd â chynnwys y Cynllun Iaith. Byddwn felly yn codi proffil y Cynllun yn gyffredinol ac yn tynnu sylw'r holl staff sy'n ymwneud â chreu polisïau neu fentrau eraill ato.

Byddwn hefyd yn codi proffil y polisi gydag Aelodau'r Awdurdod, yn enwedig y rhai sydd yn aelodau newydd.

¹ SAPPO – Rheol Polisïau a Gweithdrefnau Gweinyddol y Gwasanaeth

Byddwn yn gosod allan yr ymrwymadau cyfreithiol a'n disgwyliadau dan y Cynllun, ac yn tynnu sylw at y manteision ymarferol o weithredu yn ysbryd Deddf yr Iaith wrth gyflwyno gwasanaethau i bobl Gogledd Cymru.

Byddwn yn gwneud yn siŵr bod pawb yn glir pwy i ymgynghori â hwy am faterion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg fel cam annatod o'r gwaith o lunio a chyflwyno polisiau a chynlluniau gwaith.

2. Adolygu'r Polisiau Presennol

Mae system o adolygu SAPPO's eisoes mewn bod, a sydd yn sicrhau bod pob un yn cael ei adolygu ar ôl cyfnod penodedig yn ôl yr angen, ond fel arfer pob tair mlynedd. Mae unrhyw oblygiadau o ran y Gymraeg a'n polisi dwyieithrwydd yn un o'r materion i'w hystyried fel rhan o'r adolygiad.

Cynlluniau ar gyfer gwella

Tra rydym ni'n canolbwyntio ar gynnwys penodol pob polisi, fe allen ni golli cyfle i gyflwyno mesurau a fyddai'n hyrwyddo ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

Oherwydd ein bod ni'n credu y dylai ein holl bolisiau fod yn gyson efo'n Cynllun Iaith, ac nid yn ei danseilio, byddwn ni'n dod o hyd i ffyrdd i wella'r broses o adolygu polisiau er mwyn sicrhau nad ydym ni'n colli cyfle i wella yn y ffordd yma, nac ychwaith mewn perygl o fynd yn groes i Adran 16 o Ddeddf yr Iaith.

CYFLWYNO GWASANAETHAU

Ein Hegwyddorion

Rydym yn cydnabod bod hawl gan aelodau o'r cyhoedd, gan gynnwys aelodau etholedig yr Awdurdod, ddewis pa un o'r ddwy iaith i'w defnyddio wrth ddelio efo ni, boed hynny yn y gweithle, yn y cartref neu yn y gymuned.

Mae nifer y bobl sydd â sgiliau Cymraeg yn cynyddu, a credwn y dylem baratoi ar gyfer twf yn nisgwyladau'r gymuned o'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt drwy'r ddwy iaith.

Rydym yn cydnabod mai arfer dda, nid consesiwn, ydi cynnig dewis i'r cyhoedd.

Rydym yn cydnabod bod pobl yn mynegi barn ac anghenion yn well yn eu dewis iaith.

Mae Awdurdod Tân Gogledd Cymru wedi ymrwmo i gyflwyno Gwasanaeth o safon ac ansawdd yr un mor uchel yn y Gymraeg ag yn Saesneg.

1. Hyrwyddo diogelwch tân trwy ddarparu gwybodaeth, cyhoeddusrwydd ac anogaeth gyda'r bwriad o atal tân ac atal marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau.

Mae ein polisi yn glir iawn yn hyn o beth – mae pob cyhoeddiad a chyfarfod (gan gynnwys cyfweiliadau ac ymgyrchoedd ar y cyfryngau) ar gyfer y cyhoedd, neu sy'n ymwneud â'r cyhoedd, i fod ar gael yn ddwyieithog ¹.

Rydym yn ymdrechu i leoli staff dwyieithog yn y swyddi hynny lle mae cysylltiad uniongyrchol â'r cyhoedd, ac mae gennym ganllawiau² ar gyfer penodi staff i'r swydd hyn. Mae'r ymrwymiad hwn hefyd yn cynnwys staff sy'n ymwneud â rhaglenni ymyrraeth pobl ifanc a gwaith penodol ar atal ac adsefydlu troseddwy.

Anogir swyddogion dwyieithog i wisgo bathodyn sy'n ei gwneud yn glir eu bod yn gallu cyfathrebu yn y ddwy iaith. Gan fod dyletswyddau'r gwasanaeth tân ac achub yn canolbwyntio fwyfwy ar atal tanau, bydd mwy o waith yn cael ei wneud yn y gymuned. Lle mae staff yn dymuno dysgu Cymraeg, gallwn eu cynorthwyo efo'u gwersi.

Rydym yn cyflogi tiwtoriaid diogelwch tân sy'n ddwyieithog. Paratoir deunyddiau ar gyfer ysgolion yn y ddwy iaith. Gwneir cyflwyniadau Diogelwch Tân mewn ysgolion yn ôl dewis iaith yr ysgol. Bydd unrhyw daflenni a ddsberthir fel rhan o'r cyflwyniadau Diogelwch Tân hynny yn ddwyieithog.

¹ SAPPO Adran 1, Rhif 5

² Atodiad i SAPPO Adran 1 Rhif 7

Pan fyddwn yn cynnal digwyddiad neu ymweliad ar y cyd â chyrrff cyhoeddus neu wirfoddol eraill, rydym yn annog pawb sy'n cymryd rhan i lunio eu deunyddiau yn ddwyieithog.

Cynlluniau ar gyfer gwella

Mae cyfran helaeth o'n gweithlu yn ddiffoddwyr tân sy'n gweithio'r system dyletswydd rhan amser, sy'n gofyn iddynt fyw neu weithio yn agos at eu gorsaf dân er mwyn gallu ymateb yn sydyn i alwadau brys fel bo'r angen. Yn naturiol, oherwydd prinder diffoddwyr tân rhan amser mewn rhai ardaloedd, mae'n anochel nad yw sgiliau dwyieithog wedi cael yr un lefel o bwysigrwydd yn y broses recriwtio â'u haddasrwydd corfforol a nodweddion eraill a bod ar gael i ymateb o fewn yr amser penodedig.

Mae gennym hefyd lawer o staff llawn amser sydd yn dod i gysylltiad rheolaidd â'r cyhoedd fel rhan o'u gwaith, ond sydd ddim yn siarad Cymraeg.

Byddwn felly yn mynd ati o ddifri dros y blynyddoedd nesaf i gynyddu'r nifer o staff sydd gennym ledled Gogledd Cymru sydd yn gallu siarad Cymraeg, a hefyd i sicrhau bod mwy o staff unigol wedi dysgu digon o Gymraeg i'w galluogi i ddarparu o leiaf rhan o'n gwasanaethau trwy'r Gymraeg.

Byddwn yn ystyried sgiliau ieithyddol fel un o'r elfennau wrth benderfynu pa sgiliau sydd eu hangen er mwyn cyflawni swyddi'n effeithiol fel rhan o'n strategaeth ar gyfer System Integredig Datblygiad Personol (IPDS).

Sicrheir hefyd ar bob cyfle yn y dyfodol, y bydd unrhyw weithgaredd a drefnir o'r newydd gan y Gwasanaeth, ac a gynhelir yng Ngogledd Cymru, yn cael ei gynnal yn ddwyieithog, o ystyried y cyfyngiadau uchod.

2. Rhoi cyngor, ar gais, am sut i atal tanau a rhwystro tanau rhag lledaenu mewn adeiladau ac eiddo eraill, a sut i ddianc petai yna dân

Fel y disgrifiwyd eisoes yn yr adran hon, mae ein hegwyddorion ynglŷn â materion ieithyddol yn trawsdorri ein holl bolisiâu ar benodi a chynnal ein staff. Rydym yn ymdrechu i leoli staff dwyieithog yn y swyddi hynny lle mae cysylltiad uniongyrchol â'r cyhoedd (wyneb-yn-wyneb neu dros y ffôn), ac mae gennym ganllawiau ar benodi staff newydd i swyddi lle mae angen cysylltiad rheolaidd â'r cyhoedd.

Yn ôl y canllawiau¹, mae sgiliau dwyieithrwydd yn hanfodol i staff mewn swyddi lle disgwylir iddynt gyfarfod a rhoi cyngor neu hyfforddiant i'r cyhoedd. Mae cymorth ar gael i ddysgu Cymraeg i rai sydd ddim yn meddu ar sgiliau dwyieithog.

Er nad ydym bob amser yn gallu gwarantu y bydd pawb y daw'r cyhoedd i gysylltiad â nhw yn y lle cyntaf yn ddwyieithog, ein polisi yw ein bod yn cynnig dewis iaith ar gyfer

¹ Atodiad i SAPPO Adran 1 Rhif 7

apwyntiad pellach, lle byddai hynny'n ddefnyddiol. Mae ein canllawiau¹ yn rhoi cyfarwyddiadau clir ar sut i ddelio efo gohebiaeth, cyfathrebu, cyfarfodydd ac apwyntiadau.

Cynlluniau ar gyfer gwella

Byddwn yn ystyried sgiliau ieithyddol fel un o'r elfennau wrth benderfynu pa sgiliau sydd eu hangen er mwyn cyflawni swyddi'n effeithiol fel rhan o'n strategaeth ar gyfer System Integredig Datblygiad Personol (IPDS). Byddwn hefyd yn ceisio gweithredu system addas o asesu gallu ieithyddol.

Byddwn yn gosod targedau i gynnydd canran y staff dwyieithog fel rhan o'n gorchwyl flynyddol o osod targedau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, gyda'r nod o gynyddu'r gyfran o'r staff sy'n gallu darparu ein gwasanaethau trwy'r ddwy iaith.

3. Gwneud darpariaeth ar gyfer amddiffyn bywyd ac eiddo pan fydd tân

Yn ogystal ag atal tanau, rydym hefyd yn ymateb i'r rhai sydd wedi digwydd. Mae ein hymateb i'r galwadau tân fel arfer yn dechrau pan fydd galwad frys yn cyrraedd yr ystafell reoli. Mae staff hyfforddedig bob amser ar gael i ddelio â'r alwad ym mha iaith bynnag, gan gynnwys rhoi cyfarwyddiadau ar sut i aros yn fyw i bobl sy'n sownd mewn tân neu wedi cynhyrfu. Mae'r diffoddwyr tân sy'n delio â'r tân yn gweithio fel tîm, ac mae pob un wedi ei hyfforddi i'r safonau angenrheidiol. Mewn rhai amgylchiadau, gelwir ar reolwyr uwch i ddod i gymryd rheolaeth strategol o'r sefyllfa.

Cynlluniau ar gyfer gwella

Ystyriaeth eilradd fu sgiliau Cymraeg y criwiau tân a'r swyddogion sy'n eu cyfarwyddo, ac eithrio mewn perthynas â rolau atal tân. Mae'r polisiau recriwtio a datblygu ar gyfer diffoddwyr tân wedi canolbwyntio'n bennaf ar sgiliau ar y safle tân a gallu ar safle'r tân. Yn y dyfodol, trwy hyrwyddo bod dwyieithrwydd yn fanteisiol yng ngwaith yr ochr weithredol er mwyn delio â phobl mewn digwyddiadau, rydym yn hyderus y bydd y proffil ieithyddol gwaelodol yn newid yn raddol i'r graddau y bydd gan y criwiau sy'n mynd at ddigwyddiadau ddigon o sgiliau dwyieithog i ddelio â phobl sydd mewn argyfwng. Lle rydym yn gweld diffyg difrifol o ran gallu ieithyddol mewn un ardal lle na allwn ei ddatrys trwy hyfforddiant, fe wnawn ni ymchwilio i weld a allwn ni adleoli staff i gywiro'r diffyg.

¹ SAPPO Adran 1 rhif 5

4. Gwneud darpariaeth ar gyfer achub ac amddiffyn pobl rhag niwed difrifol pan fydd damweiniau ar y ffyrdd

Mae gwerth amlwg i allu cyfathrebu efo pobl sy'n sownd mewn cerbyd yn yr iaith y maent fwyaf cyffyrddus ynddi. Gellir tawelu eu meddyliau a rhoi gwybodaeth iddynt wrth eu tynnu allan.

Cynlluniau ar gyfer gwella

Fel y disgrifiwyd eisoes yn y adran ar griwiau tân, mae ein hegwyddorion ynglŷn â materion ieithyddol yn trawsdorri ein holl bolisiau ar benodi a chynnal ein staff. Rydym yn ymdrechu i leoli staff dwyieithog yn y swyddogaethau hynny lle mae cysylltiad uniongyrchol â'r cyhoedd.

Fel y disgrifiwyd eisoes yn yr adran ar griwiau diffodd tân, mae angen cael mwy o sgiliau dwyieithog ymysg y criwiau sy'n gyfrifol am achub pobl o gerbydau. Mae ein cynlluniau ar gyfer hyn yr un fath ag ar gyfer staff sy'n delio â thân.

5. Ymateb i argyfyngau neu ddigwyddiadau eraill yn ôl yr angen er mwyn amddiffyn pobl, eiddo, neu'r amgylchedd

Rydym yn ymateb i lu o ddigwyddiadau lle nad oes tân nac argyfyngau fel y cyfryw, megis gorlifiadau cemegol, llifogydd ac achub pobl ac anifeiliaid.

Cynlluniau ar gyfer gwella

Mae'r rhain fel y disgrifir yn yr adrannau uchod ar ddigwyddiadau tân a damweiniau ar y ffyrdd.

6. Cysylltiadau Cyhoeddus

Mae'r cyhoedd yn disgwyl lefel uchel o onestrwydd a thryloywder gan ei wasanaeth tân ac achub, ac yn disgwyl mwy a mwy o ran yn y penderfyniadau mae'n eu gwneud am y ffordd mae'n gweithredu.

Dros y blynyddoedd, mae'r gwasanaeth tân ac achub wedi ennill enw da iawn, ond rydym yn derbyn na allwn gymryd hynny'n ganiataol, a bod yn rhaid cael cysylltiadau cyhoeddus da er mwyn cadw'r enw da hwnnw.

- **Cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub**

Mae'r rhan fwyaf o gyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn agored i'r cyhoedd, a mae holl drafodaethau'r Awdurdod yn ddwyieithog. Mae gwasanaeth cyfieithu-ar-y-pryd ar gael ymhob cyfarfod o'r Awdurdod, fel y gall y siaradwyr ddewis ym mha iaith y dymunant drafod.

Yn gyffredinol, mae gohebiaeth a deunyddiau ysgrifenedig (ar bapur neu yn electronig) yn cael eu dosbarthu'n ddwyieithog ar gyfer cyfarfodydd yr Awdurdod a'i is-bwyllgorau. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau eithriadol lle nad yw hyn yn bosib,

(er enghraifft, gohebiaeth neu wybodaeth gan ffynhonnell allanol a ddaeth yn Saesneg yn unig ddim ond ychydig amser cyn cyfarfod). Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'n debygol y byddai gohirio'r cyfarfod neu ohirio'r drafodaeth am yr eitem honno, yn cael ei ystyried yn ymateb anghymesur.

Ar adegau, efallai y bydd dogfennau drafft neu ddogfennau technegol cymhleth yn cael eu cyflwyno yn Saesneg yn unig i'w cymeradwyo neu eu trafod cyn llunio adroddiad llawn yn ddwyieithog.

Fodd bynnag, rydym yn ymrwmo i wneud pob ymdrech i gadw'r achosion hyn ac amgylchiadau eraill mor anaml â phosib.

- **Cyfarfodydd cyhoeddus eraill**

Mae'r egwyddor o drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal yn ymestyn i bob cyfarfod cyhoeddus a drefnir gan neu ar ran unai'r Awdurdod neu'r Gwasanaeth. Lluniwyd canllawiau ar drefnu a cynnal cyfarfodydd cyhoeddus¹.

- **Cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb efo unigolion**

Mae canllawiau wedi cael eu llunio ar gyfer cyfarfod a gwneud apwyntiadau efo'r cyhoedd². Lle nad oes aelod o staff ar gael i drafod y mater yn yr iaith sydd orau gan yr aelod o'r cyhoedd, mae dewis rhwng aildrefnu'r apwyntiad neu parhau yn yr ail iaith. Dylid cofio mai'r nod yw gallu cynnig dewis rhwng dwy iaith, nid gofyn am benderfyniad ynglŷn â pha iaith fyddai'n cael gwell gwasanaeth.

- **Ar y ffôn**

Galwadau brys (999)

Trwy recriwtio, datblygu a lleoli staff yn ofalus, rydym yn ymdrechu i drin pob galwad frys yn unol â'r gweithdrefnau safonol, boed yr alwad gan siaradwr Cymraeg neu Saesneg. Fel rheol, ni fydd delio â galwad drwy gyfrwng un iaith na'r llall ynddo'i hun yn arwain at oedi.

Galwadau Cyffredinol

Bydd galwadau cyffredinol yn cael eu trin yn unol â'r gweithdrefnau safonol, boed yr alwad gan siaradwr Cymraeg neu Saesneg. Disgwylir i staff pwynt cyswllt cyntaf roi cyfarchiad yn ddwyieithog dros y ffôn, gyda'r Gymraeg i'w chlywed gyntaf.

Mae canllawiau wedi eu llunio i staff sydd ddim yn siarad Cymraeg, fel bo'r person sydd yn galw yn cael esboniad cwrtais o'r sefyllfa, ac yn cael cynnig dewis o sut y gallwn ei helpu.

Lleisbost a Pheiriannau Ateb – Lluniwyd canllaw i staff ar gyfer gadael negeseuon awtomatig i rywun sy'n ceisio cysylltu â nhw ar y ffôn a hwythau ddim yno i ateb yr alwad. Bydd y cyfarchiad ar beiriannau ateb mewn derbynfeydd ac ar rifau cyswllt

¹ SAPPO Adran 1 Rhif 5

² SAPPO Adran 1 Rhif 5

cyntaf eraill yn ddwyieithog, a'r Gymraeg i'w chlywed gyntaf. Bydd iaith y cyfarchiad ar beiriannau ateb rhifau estyniadau a/neu ffonau symudol y swyddogion unigol yn dibynnu lawer ar eu dewis eu hunain neu eu sgiliau iaith. Fodd bynnag, bydd pawb yn cael eu hannog i adael negeseuon dwyieithog, a rhoddir cymorth i bawb sydd ddim yn sicr o'r derminoleg gywir i'w defnyddio.

- **Gohebiaeth**

Lluniwyd canllawiau ar ohebu gyda'r cyhoedd trwy lythyr, ac mae hyn yn sicrhau y bydd pawb sy'n anfon llythyr Cymraeg neu Saesneg atom yn cael ateb yn yr iaith honno. Hefyd, os anfonir llythyr yn dilyn sgwrs bydd y llythyr yn iaith y sgwrs, oni bai y gwneir cais fel arall.

Os nad yw'n amlwg pa iaith a ddymunir, bydd yr ohebiaeth yn ddwyieithog.

Mae papur pennawd y Gwasanaeth Tân ac Achub yn cynnwys brawddeg yn dweud bod croeso i'r cyhoedd ysgrifennu at yr Awdurdod yn Gymraeg neu yn Saesneg. Geiriad dwyieithog sydd ar bapurau safonol yr Awdurdod.

- **Yn electronig**

Rydym yn mabwysiadu ffyrdd newydd o ddefnyddio technoleg i gyflwyno gwasanaethau. Wrth gyflwyno systemau electronig newydd, byddwn yn ceisio gwneud yn siŵr bod dulliau ar gael i gyfathrebu yn electronig yn y ddwy iaith.

Bydd unrhyw wasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd trwy wefan yr Awdurdod yn cael eu trin yn dilyn yr un meini prawf ieithyddol ag unrhyw wasanaethau a ddarperir trwy ffyrdd eraill.

- **Ymgynghori â'r cyhoedd**

O dro i dro, byddwn yn cynnal arolygon barn i fesur barn y cyhoedd am ein gwasanaethau. Bydd arolygon barn y cyhoedd yn cael eu cynnal yn ddwyieithog.

Cynlluniau ar gyfer gwella

Gall fod yn broblemus asesu ein llwyddiant, neu ein haflwyddiant, yn y maes cysylltiadau cyhoeddus, o ran mesur a chofnodi deliadau unigol â'r cyhoedd; ac yn y gorffennol mae hyn wedi tueddu, yn anffodus, i ganolbwyntio ormod ar gyfrifiadau meintiol o fethiannau neu ddiffygion (megis o ganlyniad i gwynion). Rydym, felly, yn bwriadu cynyddu ein defnydd o asesiadau ansoddol priodol er mwyn sefydlu sut rydym yn perfformio'n effeithiol yn hyn o beth.

WYNEB CYHOEDDUS

Ein Hegwyddorion

Mae wyneb cyhoeddus fel Awdurdod sy'n gweithredu'n ddwyieithog yn gymorth inni gyrraedd y bobl rydym yn eu gwasanaethu. Cadw pobl yn ddiogel yw ein prif nod, a thrwy gyfathrebu'n effeithiol yn y ddwy iaith, rydym am allu closio at ein cymunedau yn well.

Yn ein barn ni, mae'n gyfrifoldeb arnom ni, fel ar unrhyw wasanaeth cyhoeddus, i adlewyrchu'r gymuned rydym yn eu gwasanaethu, er mwyn inni allu darparu gwasanaethau da yn ein hardal.

Bydd delwedd a hunaniaeth corfforaethol yr Awdurdod yn ddwyieithog ar bob achlysur.

Mae delwedd cyhoeddus y gwasanaeth tân ac achub yng Ngwledydd Prydain yn newid, yn bennaf mewn meysydd yn ymwneud â a) gweithlu dwyieithog sy'n adlewyrchu'r gymuned mae'n ei gwasanaethu, a b) gwneud mwy i atal tanau.

Mae'r ddelwedd gyhoeddus o'n gwasanaeth fel gwasanaeth dwyieithog yn effeithio ar yr meysydd yma. Mae cyfran uchel o'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yng Ngogledd Cymru yn byw eu bywydau bob-dydd yn ddwyieithog. Byddai cyflwyno delwedd gyhoeddus uniaith yn beth rhyfedd ac yn wrthun i nifer o'r bobl hynny.

- **Arwyddion**

Mae pob arwydd a gynhyrchir gan y gwasanaeth yn ddwyieithog. Rhoddir canllawiau ar y gofynion dwyieithog i bob asiant sy'n ymwneud â chynhyrchu'r arwyddion hyn.

- **Cerbydau**

Mae unrhyw ysgrifen ar gerbydau'r Gwasanaeth yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn ymddangos yn uchaf neu i'r chwith (i'r darllenydd). Rhoddir canllawiau ar ofynion dwyieithog i gyflenwyr y cerbydau.

- **Cyhoeddiadau i'r cyhoedd yng Nghymru**

Lluniwyd canllawiau ar baratoi cyhoeddiadau i'r cyhoedd yng Nghymru. Bydd holl gyhoeddiadau a deunydd printiedig ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog.

Fe arfer, argreffir cyhoeddiadau dwyieithog gefn wrth gefn. Er hynny, ar adegau, efallai y byddai'n fwy priodol i gyhoeddi dwy fersiwn ar wahân – un ym mhob iaith (e.e. llyfrau addysgol).

Mewn achosion lle nad oes dewis ond cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, rhaid dosbarthu'r fersiynau gyda'i gilydd, a bydd y naill fel y llall yr un mor

hawdd i'w cael. Bydd brawddeg ymhob fersiwn yn datgan ei fod hefyd ar gael yn yr iaith arall.

Mewn achos o brisio dogfen a gynhyrchir gan yr Awdurdod, ni fydd pris fersiwn Cymraeg yn uwch na phris y fersiwn Saesneg, ac ni fydd pris fersiwn ddwyieithog yn uwch na phris yr un ddogfen mewn un iaith yn unig.

Mewn achos go annhebygol o gyhoeddi dogfen i'r cyhoedd yng Nghymru sy'n arbennig o dechnegol a chymhleth na allai'n hawdd ei chyfieithu (e.e. yn ymwneud â systemau neu offer cyfrifiadurol), yna fe ddsberthir y ddogfen dechnegol honno yn yr iaith wreiddiol, a bydd raid rhoi crynodeb o'r cynnwys yn yr iaith arall hefyd.

Pan rydym yn dosbarthu cyhoeddiadau ar ran corff neu asiantaeth arall, rydym yn gwneud pob ymdrech i sicrhau eu bod ar gael yn y ddwy iaith.

- **Deunyddiau amrywiol eraill**

Mae eitemau megis gwahoddiadau, posteri, sieciau, trwyddedau, cardiau, bwydlenni, amserlenni, derbynebaw, anfonebau, mapiau a thalebaw yn ddwyieithog.

- **Gwisgoedd**

Bydd gwisgoedd y Gwasanaeth yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn uwch, neu (i'r darllenydd) i'r chwith o'r Saesneg.

- **Hysbysebu a Chyhoedduswydd**

Cynhelir yr holl weithgareddau a drefnir yng Nghymru gan yr Awdurdod (e.e. arddangosfeydd, ymgyrchoedd, cynadleddau) yn ddwyieithog oni bai fod yr Awdurdod yn cytuno i gydymffurfio â chais dilys i gynnal yr weithgaredd trwy gyfrwng un iaith yn unig.

Bydd hyn yn golygu hysbysebu'r weithgaredd gyhoeddus ei hun, negeseuon am yr weithgaredd ar hysbysfyrddau, baneri, bathodynnau, balwms ac ati, gan gynnwys negeseuon electronig.

- **Hysbysiadau swyddogol a chyhoeddus yng Nghymru**

Rydym yn sicrhau bod hysbysiadau cyhoeddus swyddogol a hysbysebion swyddi gyda'r Awdurdod yn ymddangos yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg a'r Saesneg ochr yn ochr, boed hynny yn y wasg, ar ffurf electronig, ar hysbysfyrddau neu fel arall.

Rydym yn sicrhau bod y fersiynau Cymraeg and Saesneg yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd, gyda'r fersiwn Gymraeg yn uwch neu i'r chwith o'r fersiwn Saesneg.

Cynlluniau ar gyfer gwella

Rydym yn cydnabod y gallem ni, ar adegau, fod yn gwneud mwy i hyrwyddo ein delwedd gyhoeddus ddwyieithog, yn enwedig o ran mentrau lleol tymor-byr, ac yn arbennig yn yr ardaloedd Seisnigedig. Felly, fe fyddwn ni'n cryfhau'r cyfarwyddyd sydd ar gael i staff yn hyn o beth, er mwyn atgyfnerthu'r hyn mae'r gwasanaeth yn ei ddisgwyl ohonynt.

Mae angen ailwampio a diweddarau'r wybodaeth rydym yn ei darparu i gontractwyr ac eraill er mwyn ailbwysleisio pwysigrwydd ein delwedd gyhoeddus ddwyieithog. Mae mwy a mwy o bobl yn defnyddio'r we i wneud ymchwil ac i gysylltu – felly fe fyddwn yn parhau i ddod o hyd i ffyrdd i wella effeithiolrwydd ein gwefan yn hyrwyddo ein delwedd gyhoeddus fel corff dwyieithog.

Y GWEITHLU

Ein Hegwyddorion

Nod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yw cynnig eu gwasanaethau yn newis iaith y cyhoedd yng Ngogledd Cymru, yn Gymraeg neu Saesneg, lle bynnag y byddo'n ymarferol bosibl i wneud hynny.

I wneud hyn, mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod nifer y staff sydd â'r sgiliau dwyieithog gofynnol yn ddigonol i ateb gofynion ei Gynllun Iaith.

1. Strategaeth Adnoddau Dynol

Lluniwyd canllawiau¹⁰ ar gyfer penderfynu pa swyddi y bydd y Gymraeg yn *'hanfodol'* neu'n *'ddymunol'* ar eu cyfer. Defnyddir gwybodaeth ystadegol ac ansoddol i gynorthwyo i sefydlu nifer a dosbarthiad y swyddi hynny sydd angen sgiliau dwyieithog drwy'r Gwasanaeth.

Cynlluniau ar gyfer gwella

Nod ein strategaeth cyffredinol bydd sicrhau bod holl staff y Gwasanaeth Tân ac Achub yn llwyr ymwybodol o'u dyletswyddau, ac yn gallu:

- cyfrannu at wireddu gweledigaeth yr Awdurdod o gyflwyno gwasanaethau yn newis iaith y cyhoedd, a
- chadw at yr egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, y bydd y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal.

Ein nod yn y pen draw yw gallu cynnig dewis iaith go iawn yn mhob cyfarfod, yn seiliedig ar ddewis y cyhoedd yn hytrach na phwy yw'r swyddogion sydd ar gael.

Bydd gwybodaeth, cyngor a hyfforddiant ar ein Polisi Dwyieithog a'r Cynllun Iaith ar gael i bawb, ac rydym yn rhagweld y bydd codi proffil y cynllun a gwella mynediad ato yn cyfrannu at hynny. Byddwn yn sicrhau bod pob aelod o'r staff, ym mha swydd bynnag, yn dod yn ymwybodol o'r gofyn i gadw at yr egwyddor o drin y ddwy iaith yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yn Nghymru. Bydd methu neu wrthod dilyn y canllawiau yn cael ei ddwyn i sylw'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol sydd â chyfrifoldeb am Gynnal y Gwasanaethau. Bydd dewis peidio â chydymffurfio yn cael ei drin yn unol â gweithdrefnau disgyblu safonol yr Awdurdod.

I gyrraedd y nod o gyflwyno gwasanaethau yn newis iaith y cyhoedd, byddwn yn llunio strategaeth sgiliau iaith, er mwyn sicrhau bod gan y staff perthnasol y sgiliau ieithyddol sydd eu hangen. Bwriad pennaf y strategaeth bydd sicrhau bod digon o staff â sgiliau dwyieithog ar gael i lenwi'r swyddi hynny ble mae angen dod i gysylltiad â'r cyhoedd fel

¹⁰ SAPPO Adran 1 Rhif 7

rhan o'u dyletswyddau arferol. Bydd elfen o'r strategaeth yn ymwneud â materion o olyniaeth, er mwyn ceisio osgoi diffyg sgiliau yn y dyfodol.

Bydd meddalwedd newydd yn ein galluogi i fonitro lleoliad a nifer y staff sydd yn meddu ar y sgiliau i ddarparu gwasanaethau trwy'r ddwy iaith. Byddwn felly yn gallu mynd ati i wella unrhyw ddiffygion sydd unai mewn bod ar y pryd, neu sydd yn debygol o godi yn y dyfodol.

Bydd monitro'r sefyllfa ieithyddol yn ran annatod o weithredu fframwaith y Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella - gan gynnwys y broses o Gynllunio Integredig Rheoli Risg ac arolygon Gwerth Gorau. Bydd adroddiadau yn dod yn rheolaidd ger bron yr Awdurdod, gan gynnwys gwybodaeth ystadegol a disgrifiadol o'r sefyllfa ieithyddol. Bydd gwybodaeth cymwys hefyd yn cael ei gyflwyno fel rhan o'n Adroddiad Blynyddol i Fwrdd yr Iaith.

2. Penodi a Dyrchafu Staff

Wrth benodi staff, sgil fel pob sgil arall yw iaith. Mae gan yr aelodau o'r staff sy'n ymwneud â'r broses recriwtio fynediad at gyfarwyddyd¹¹ sy'n gosod allan bolisi recriwtio'r Awdurdod.

Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn cael ei ystyried yn '*hanfodol*' neu yn '*ddymunol*' ar gyfer rhai swyddi. Yn y cyd-destun hwn, mae '*hanfodol*' yn golygu bod y gallu i siarad Cymraeg yn gwbl angenrheidiol, a '*dymunol*' yn golygu y byddai'n ddymunol penodi siaradwr Cymraeg ond nid yn gwbl angenrheidiol.

Mewn sefyllfa lle mae dau ymgeisydd â'r un cymwysterau a phrofiad yn ceisio am swydd lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn '*ddymunol*', yna fe ystyrir y gallu i siarad Cymraeg fel sgil ychwanegol. Mewn achos o benodi person heb sgiliau dwyieithog i'r math yma o swydd, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei annog i ddysgu Cymraeg.

Ystyrir y gallu i siarad Cymraeg yn gymhwyster cydradd ag unrhyw sgil hanfodol arall ar gyfer swyddi y dynodir y Gymraeg yn '*hanfodol*' ar eu cyfer. Pe bai anhawster penodi siaradwr Cymraeg addas gyda'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer y swyddi hyn, fe osodir amod i'r ymgeisydd llwyddiannus ddysgu'r Gymraeg i'r lefel ofynnol oddi fewn cyfnod y cytunir arno.

Cynlluniau ar gyfer gwella

Er ein bod yn *annog* staff i ddysgu Cymraeg, byddwn yn edrych ar y posibilrwydd o gyflwyno gofynion newydd ar gyfer rhai swyddi o leiaf lle byddai gofyn i ymgeiswyr di-Gymraeg llwyddiannus i swyddi lle mae'r Gymraeg yn '*ddymunol*' ymrwymo i lefel rhagnodedig o fedrusrwydd yn Gymraeg o fewn amserlen y cytunir arni.

¹¹ SAPPO Adran 1 Rhif 7

3. Amrywiol eraill

- **Hysbysebu swyddi yn y wasg**

Byddwn yn ceisio hysbysebu swyddi mewn papurau ac ar wefannau priodol lle byddent yn fwyaf tebygol o ddenu ymgeiswyr addas. Fe rheol, bydd hysbysebion swyddi yn ymddangos yn ddwyieithog, ond weithiau byddant yn ymddangos yn Gymraeg yn unig, er enghraifft, lle mae'r swydd yn un â'r Gymraeg yn hanfodol, a'r hysbyseb yn ymddangos mewn papurau Cymraeg neu ar wefannau Cymraeg.

- **Ymgyrchoedd recriwtio**

Bydd ymgyrchoedd recriwtio'n cael eu cynnal yn ddwyieithog.

- **Ffeiriau swyddi/gyrfaoedd**

Mae'r Awdurdod yn croesawu gweithwyr Cymraeg a Saesneg fel gweithwyr. Rydym yn ceisio cyfleu hyn i ddarpar weithwyr mewn ffeiriau swyddi a gyrfaoedd trwy gael staff dwyieithog wrth law i siarad efo'r cyhoedd.

- **Dysgu Cymraeg**

Rydym yn ceisio sicrhau'n dosbarthiad priodol o weithwyr dwyieithog trwy annog y staff presennol mewn swyddi y dyfarnwyd bod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, i ddysgu Cymraeg, neu trwy adleoli'n wirfoddol lle bo hynny'n bosib.

Cynlluniau ar gyfer gwella

Caiff disgrifiadau swyddi eu llunio i adlewyrchu gofynion sgiliau dwyieithog swyddi penodol.

Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu strategaeth sgiliau iaith, byddwn yn penderfynu pa grŵp mewnol (e.e. grŵp rheoli neu bwyllgor penodol) fyddai orau i oruchwylio'r gwahanol dasgau sy'n gysylltiedig â'r strategaeth yn y dyfodol. Un o ddyletswyddau'r grŵp fydd nodi unrhyw ostyngiad yng nghyfran neu yn nifer staff sydd â sgiliau dwyieithog, ac yn sicrhau bod y Gwasanaeth y cymryd camau i gywiro'r sefyllfa.

Bydd dysgu Cymraeg yn rhan o raglen ddatblygu'r Gwasanaeth. Rhoddir blaenoriaeth i staff sy'n dod i gysylltiad rheolaidd â'r cyhoedd, a chaiff eu cynnydd wrth ddysgu'r iaith ei asesu'n rheolaidd.

Lle bo angen yn codi, bydd Rheolwr Datblygu'r Gwasanaeth yn trefnu i aelodau'r staff gael hyfforddiant galwedigaethol trwy gyfrwng y Gymraeg, lle bo hyfforddiant ar gael. Mae hyn yn ymwneud yn bennaf â staff mewn swyddi penodol a fydd yn cael eu hannog i fynyachu seminarau a chyrsgiau yn eu meysydd trwy gyfrwng y Gymraeg.

PARTÏON ERAILL

Ein Hegwyddorion

Mae'r Awdurdod Tân ac Achub wedi ymrwymo i sicrhau (trwy drefniadau contractio) y gall ac y bydd yr asiant neu'r contractwr yn gweithredu unrhyw elfennau o'r Cynllun sydd yn berthnasol i'w gwaith arbennig hwy tra'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ar ein rhan neu o dan ein goruchwyliaeth.


Rhaid i unrhyw gytundeb neu drefniant a wneir gyda phartïon eraill sydd yn gwasanaethu'r cyhoedd yng Nghymru ar ein rhan (contractwyr, partneriaethau, ac ati) fod yn gyson â thelerau'r Cynllun. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau a gaiff eu contractio allan. Mae unrhyw ofynion ynglŷn â'r Gymraeg yn cael eu datgan mewn dogfennau tendro a chontractau.

Cynlluniau ar gyfer gwella

Fel rhan o'n strategaeth ar gyfer cyfleu ein disgwyliaid i gyrrff allanol sy'n cyflawni gwasanaethau ar ein cyfer, byddwn yn llunio ac yn dosbarthu canllaw ysgrifenedig i asiantaethau a chontractwyr, er mwyn tynnu sylw at ofynion y Cynllun.

Er ein bod yn cydnabod na fydd bob amser yn realistig nac yn bosib, byddwn yn annog partïon eraill sy'n codi eu harwyddion eu hunain ar safleoedd y gwasanaeth tân yn defnyddio arwyddion dwyieithog.

GWELLIANNAU PARHAUS TRWY GyFRWNG Y CYNLLUN



CRYNODEB O FATERION CYDYMFFURFIO

1. Monitro

Caiff Cynllun Iaith yr Awdurdod ei fonitro'n rheolaidd.

Byddwn yn:

- a) sicrhau bod yr holl staff yn derbyn arweiniad a chyfarwyddiadau ar sut i weithredu'r Cynllun;
- b) sicrhau bod perfformiad y Gwasanaeth yn cael ei fonitro yn erbyn y Cynllun;
- c) sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chyflwyno'n rheolaidd i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

Bydd y cyfrifoldeb o fewn y Gwasanaeth am fonitro perfformiad yn erbyn gwahanol agweddau ar y Cynllun yn cael ei basio i'r grŵp neu'r unigolyn mwyaf priodol, fel y mae'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cynnal y Gwasanaethau) yn ei benderfynu o dro i dro. Bydd monitro ac adrodd yn rhan o fframwaith gyffredinol y Gwasanaeth ar reoli perfformiad.

Caiff y canlyniadau a'r wybodaeth ddiweddaraf eu hadrodd yn ffurfiol yn rheolaidd i'r Uwch Dîm Rheoli a'r Awdurdod Tân, fel rhan o broses barhaus. Bydd adroddiadau'n cynnwys nodi unrhyw wendidau, problemau, cwynion neu ddiffygion amlwg a ddaeth i'r golwg o ran gweithredu'r Cynllun, ac unrhyw gamau a gymerwyd neu a gynlluniwyd i fynd i'r afael â nhw.

Bydd y cwynion neu'r problemau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Cynllun yn cael eu cofnodi a'u crynhoi yn yr adroddiad rheolaidd i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

Bydd o leiaf yr agweddau canlynol yn cael eu monitro a'u hadrodd:

- cyfran a nifer y staff sydd â sgiliau dwyieithog (i'r safon a ddynodwyd);
- cyfran a nifer y swyddi a ddynodwyd yn 'Gymraeg yn hanfodol' sydd wedi eu llenwi â staff dwyieithog (i'r safon briodol);
- cyfran a nifer y swyddi a ddynodwyd yn 'Gymraeg yn ddymunol' sydd wedi eu llenwi â staff dwyieithog (i'r safon briodol);
- nifer y cwynion a ddaeth gan ffynonellau heblaw staff neu eu cynrychiolwyr ynghylch materion iaith;
- nifer y cwynion a ddaeth gan staff neu eu cynrychiolwyr ynghylch materion iaith;
- perfformiad yn erbyn unrhyw dargedau penodol a fabwysiadwyd fel rhan o'r fframwaith rheoli perfformiad.

Bydd dadansoddiadau ystadegol o broffil ieithyddol ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus, recriwtiaid a rhai sy'n gadael y Gwasanaeth, hefyd yn cael eu gwneud hyd y gall y systemau adnoddau dynol gasglu ac adrodd am y data yma.

Caiff cynlluniau gweithredu gydag amserlen ac yn gosod targedau penodol ar ateb gofynion y Cynllun eu llunio a'u diweddau'n rheolaidd. Prif nod y targedau penodol fydd galluogi'r Gwasanaeth i ddarparu gwasanaethau dwyieithog sydd yn gyson o safon uchel ym mhob rhan o Ogledd Cymru.

2. Cyhoeddi Gwybodaeth

Bydd gwybodaeth berthnasol am berfformiad yr Awdurdod fel Awdurdod dwyieithog yn cael ei rhoi yn ei gyhoeddiadau corfforaethol i'r cyhoedd.

3. Cyhoedduswydd i'r Cynllun

Bydd enw a manylion cysylltu'r sawl y mae'r Prif Swyddog Tân yn dirprwyo'r cyfrifoldeb am weithredu'r cynllun yn cael ei wneud yn hysbys i'r staff, y cyhoedd, ac unrhyw asiant neu gontractwr sy'n gweithio ar ran yr Awdurdod.

Bydd yr Awdurdod yn datgan yn glir ym mhob dogfen wybodaeth a ddosbarthir i'r cyhoedd yn rheolaidd, fod croeso i'r cyhoedd gysylltu â'r gwasanaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Bydd datganiad tebyg yn ymddangos ar wefan yr Awdurdod.

Fe'i gwneir yn hysbys hefyd i'r cyhoedd sy'n ymweld â stondinau (e.e. *arddangosiadau Diogelwch Tân*), diwrnodiau agored, sioeau teithiol ac unrhyw ddigwyddiad cyhoeddus arall a drefnir gan y Gwasanaeth, fod croeso iddynt gysylltu â'r gwasanaeth yn eu dewis iaith.

4. Cyfieithu

Mae gan y Gwasanaeth gyfieithydd llawn amser i gefnogi mentrau penodol ac i gynghori ar faterion dylunio dwyieithog a darllen proflenni.

Bydd gwasanaethau cyfieithu allanol yn cael eu comisiynu i gwrdd â llwyth gwaith cyfieithu trwm.

Bydd gwasanaethau cyfieithu-ar-y-pryd ar gael mewn cyfarfodydd cyhoeddus.

CYFRIFOLDEB AM WEITHREDU'R CYNLLUN

Y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cynnal y Gwasanaethau), neu fel y cyfarwydda'r Prif Swyddog Tân fel arall, fydd yn gyfrifol am weithredu a chynnal y cynllun.

MANYLION CYSYLLTU

Dylid anfon unrhyw sylwadau neu ymholiadau am y cynllun hwn neu ein polisi dwyieithog at:

Prif Swyddog Tân Cynorthwyol – Cynnal y Gwasanaethau
Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub
Ffordd Salesbury
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 OJJ

Ffôn: 01745 535250


E-bost: po.acfo@nwales-fireservice.org.uk

CRYNLODEB O'N CYNLLUNIAU AR GYFER GWELLA

Tasg	Tud.	Cyfrifoldeb	Dyddiad adolygu
Hyrwyddo'r Cynllun yn fewnol			
<p>Ceisio ffyrdd i godi proffil y Cynllun trwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • hyfforddiant ymwybyddiaeth; a • mynediad at gyngor a chyfarwyddyd. 			
Hyrwyddo'r Cynllun yn allanol			
Parhau i geisio ffyrdd i wella effeithiolrwydd ein gwefan wrth hyrwyddo ein delwedd fel corff dwyieithog.			
Llunio cyfarwyddyd i asiantaeth a chontractwyr allanol i dynnu eu sylw at ofynion y Cynllun. Hyn i gynnwys anogaeth gref i bartïon eraill sy'n gweithio ar safleoedd y gwasanaeth tân ac achub i godi arwyddion dwyieithog.			
Diweddarau'r wybodaeth a roddwn i gontractwyr ac eraill er mwyn ail-bwysleisio pwysigrwydd ein delwedd gyhoeddus ddwyieithog.			
Datblygu system lle mae cyfarwyddyd ysgrifenedig ynghylch ein Cynllun iaith yn cael ei roi fel mater o drefn i asiantaeth a chontractwyr allanol.			
Darparu'r isadeiledd mewnol			
Egluro'r cyfrifoldebau o ran rhoi cyngor a chyfarwyddyd am faterion yn ymwneud â'r Gymraeg.			
Pennu pa grwpiau fyddai'n goruchwyllo'n fwyaf effeithiol y gwahanol dasgau sy'n ymwneud â'r strategaeth sgiliau iaith yn y dyfodol, gan gynnwys cynnal cyfran ddigonol o staff sydd â sgiliau dwyieithog.			
Gwneud i hyn ddigwydd			
Cynyddu'r defnydd o'r cyngor a'r cyfarwyddyd priodol wrth ddatblygu polisiau a chynlluniau gwaith. Hyn i gynnwys adnabod ffyrdd i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.			
Cryfhau'r cyfarwyddyd a roddir i staff o ran hyrwyddo ein delwedd gyhoeddus ddwyieithog, er mwyn atgyfnerthu'r hyn mae'r gwasanaethau yn ei ddisgwyl ohonynt.			
<p>Datblygu strategaeth sgiliau iaith, yn gysylltiedig â'r strategaeth IPDS er mwyn sicrhau bod y sgiliau ieithyddol angenrheidiol ar gael o fewn y gweithlu i gyflwyno gwasanaethau yn newid iaith y cyhoedd.</p> <p>Y strategaeth hon i gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • egluro pa mor ddymunol fyddai sgiliau dwyieithog i gyflawni rolau unigol yn effeithiol • materion olyniaeth er mwyn osgoi prinder sgiliau yn y dyfodol • ceisio ffyrdd i gynydd cyfran y gweithlu sy'n gallu siarad (gan gynnwys drwy dargedau addas) 			

Tasg	Tud.	Cyfrifoldeb	Dyddiad adolygu
<ul style="list-style-type: none"> sicrhau bod gan staff ddigon o wybodaeth o'r Gymraeg i ddarparu o leiaf rhai o'n gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg gweithredu system addas sy'n gyson a gwrthrychol i asesu gallu ieithyddol 			
Edrych ar y posibilrwydd o gyflwyno gofynion newydd i rai swyddi o leiaf lle byddai gofyn i ymgeiswyr di-Gymraeg llwyddiannus am swyddi lle mae'r Gymraeg y 'ddymunol' i ymrwmo i gyrraedd lefel ragnodedig o fedrusrwydd yn Gymraeg o fewn cyfnod y cytunir arno.			
Cael ffyrdd i sicrhau bod disgrifiadau swyddi yn cael eu datblygu sy'n adlewyrchu gofynion sgiliau dwyieithog swydd penodol (yn hytrach na rolau generig).			
Sicrhau bod dysgu Cymraeg yn cael ei gynnwys yn rhaglen ddatblygu'r Gwasanaeth.			
Cyflwyno asesiadau rheolaidd o sgiliau Cymraeg staff mewn swyddi lle nodir blaenoriaeth.			
Hunanymwbyddiaeth parhaus			
Cyflwyno systemau i adnabod diffygion difrifol mewn gallu dwyieithog o fewn grwpiau o weithwyr, ac egluro'r weithdrefn ar gyfer datrys prinder trwy hyfforddiant neu aiddosbarthu staff.			
Cynyddu'r defnydd o asesiadau ansoddol priodol i sefydlu pa mor effeithiol rydym yn perfformio o ran cysylltiadau cyhoeddus.			
Datblygu system o fonitro proffil ieithyddol y gwasanaeth sy'n rhan annatod o Raglen Cymru ar gyfer Gwella.			
Sicrhau bod adroddiadau rheolaidd yn dod gerbron yr Awdurdod, yn cynnwys gwybodaeth ystadegol a disgrifiadol am broffil ieithyddol y gwasanaeth a'i berfformiad. Hyn yn ychwanegol at yr adroddiadau rheolaidd i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.			

DANGOSYDDION PERFFORMIAD LLEOL



- ▶ Cyfran a nifer y staff sydd â sgiliau dwyieithog (i'r safon ddynodedig);
- ▶ Cyfran a nifer y swyddi lle mae'r Gymraeg yn 'hanfodol' a lenwir gan staff sydd â sgiliau dwyieithog (i'r safon briodol);
- ▶ Cyfran a nifer y swyddi lle mae'r Gymraeg yn 'ddymunol' a lenwir gan staff sydd â sgiliau dwyieithog (i'r safon briodol);
- ▶ Nifer y cwynion a ddaw gan ffynonellau heblaw am staff neu eu cynrychiolwyr ynghylch materion iaith;
- ▶ Nifer y cwynion a ddaw gan staff neu eu cynrychiolwyr ynghylch materion iaith
- ▶ Perfformiad yn erbyn unrhyw dargedau penodol a fabwysiedir fel rhan 'r fframwaith rheoli perfformiad.